

CYNLLUN GWEITHREDU GWRTH-HILIOI 2022-24

CANLLAW I FYFYRWYR



EIN CENHADAETH

Bod yn Goleg Catholig i'r gymuned, sy'n ceisio darganfod a gwireddu potensial llawn pawb mewn awyrgylch o gariad, gwasanaeth a pharch wedi'i ysbrydoli gan Grist.



EIN GWELEDIGAETH

Mae Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant yn ymdrechu i sefydlu a chynnal cymuned sy'n tystiolaethu gwerthoedd a chred Cristnogol, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud ag **urddas dynol** a **lles pawb**. Rydym wedi ymrwymo i **addysg y person cyflawn**; gan werthfawrogi a dathlu **unigrywiaeth pob unigolyn**. Rydym am i'n myfyrwyr gyrraedd eu **llawn potensial**; potensial a roddir iddynt gan Dduw.

Rydym wedi ymrwymo i fod yn goleg sy'n cynnig **diogelwch**, **cydraddoldeb** a **chynhwysiant** i bawb sy'n astudio ac yn gweithio ynddo. Rydym yn ymdrechu i fod yn goleg lle mae pob myfyriwr, **beth bynnag fo'i gefndir economaidd-gymdeithasol**, **ethnig neu ddiwylliannol**, yn derbyn gofal, cymorth ac arweiniad o ansawdd uchel. Rydym yn gweithio i wneud **gwahaniaeth mesuradwy i gyfleoedd bywyd ein myfyrwyr** trwy roi strategaethau a chymau gweithredu ar waith gyda'r nod o leihau'r anghydraddoldebau y maent yn eu profi. Rydym yn gweithio i sicrhau bod ein myfyrwyr a'n staff yn teimlo'n **unedig gan eu gwahaniaethau yn hytrach na wedi'u gwahanu**; rydym am i **amrywiaeth gael ei ddathlu**.

Nid yw Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant yn goddef aflonyddu hiliol ac mae'n **condemnio pob ymddygiad gwahaniaethol**. Rydym wedi ymrwymo i herio a chael gwared ar bob enghraifft o hiliaeth drwy ein hymarferion, ein polisïau a'n gweithdrefnau.



PA FATH O GOLEG YDYM NI AM FOD?

RYDYM NI AM FOD YN GOLEG:

- Sy'n cynnig amgylchedd lle caiff dysgwyr eu grymuso i **feithrin a dyfnhau eu perthynas â Duw**;
- Sy'n meithrin **diwylliant o ragoriaeth academiaidd**;
- Lle mae pob myfyriwr yn **cael ei gredu a'i goleddu**;
- Lle caiff yr **holl ddoniau a galluoedd eu cydnabod a'u dathlu**;
- Lle caiff **cyfraniadau a chyflawniadau unigolion eu gwerthfawrogi**;
- Lle caiff **pawb ei drin yn deg ac yn gyfiawn**;
- Lle rydym yn ceisio sicrhau bod pob myfyriwr yn cyrraedd ei lawn botensial waeth beth fo'i **gefndir economaidd, crefydd neu grŵp ethnig**;
- Lle mae **anogaeth a chefnogaeth ar gael yn eang** i sicrhau bod pawb yn cyflawni eu **potensial personol llawn, unigol am ragoriaeth**; a
- Lle rydym ni'n **helpu ein gilydd ac yn gweithio ar y cyd gyda brwdfrydedd a haelioni**, gan geisio **efelychu'r gwerthoedd Catholig rydym ni'n eu hyrwyddo**.



BETH MAE BOD YN WRTH-HILIO YN EI OLYGU?

- Mae gwrth-hiliaeth yn daith - mae'n bosibl peidio â bod yn hiliol heb fod yn wrth-hiliol.
- Mae bod yn wrth-hiliol yn golygu ceisio creu cymdeithas gyfartal.
- Mae gwrth-hiliaeth yn ymwneud ag ymladd a gwrthwynebu hiliaeth; bod yn 'wrthwynebwr' yn hytrach nag yn wylwr.

"Does neb yn cael ei eni'n hiliol nac yn wrth-hiliol; maent yn ddewisiadau rydyn ni'n eu gwneud."

"Mae bod yn wrth-hiliol yn ddewis radical yn wyneb hanes, sy'n gofyn am ailgyfeirio ein hymwybyddiaeth yn radical."

Ibram X. Kendi, 'How to be an Antiracist'

■ Cyfeiriwch at y ddolen hon am ragor o wybodaeth am fod yn wrth-hiliol:
<https://nmaahc.si.edu/learn/talking-about-race/topics/being-antiracist>





PAM MAE GWRTH-HILIAETH YN BWYSIG I NI?

-
- Mae Coleg Dewi Sant yn ymdrechu i sefydlu a chynnal cymuned sy'n **gwireddu gwerthoedd a chred Gristnogol**.
 - Mae Cynhadledd Esgobion Catholig Cymru a Lloegr yn nodi bod '**hiliaeth yn bechod ac yn drais ar urddas dynol**' a hefyd bod '**gan bob un o'n plwyfi, ein hysgolion a'n sefydliadau gyfrifoldeb i ymarfer gwrth-hiliaeth yn weithredol ym mhob agwedd ar ein cenhadaeth**'.
 - Yn unol â'r traddodiad Catholig, mae Coleg Dewi Sant yn anelu at **wireddu gweledigaeth o'r fath o'r neges Efengyl hon drwy ei gofal bugeiliol, ei pherthynas gadarnhaol, ei darpariaeth cwricwlwm o ansawdd uchel a chyfleoedd ar gyfer twf crefyddol ac ysbrydol**.
 - Targed Llywodraeth Cymru i Gymru **fod yn genedl wrth-hiliol erbyn 2030**.

CYD-DESTUN

- **Mae Coleg Chweched Dosbarth Dewi Sant yn goleg sy'n amrywiol o ran ethnigrwydd a diwylliant.**
- Mae cyfran y dysgwyr o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig wedi cynyddu'n gyson o 34% yn 2016/17 i tua **50% yn 2023/24.**
- Mae ffigur 2022/23 ymhell uwchlaw canran Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig Caerdydd sef **20.8%**, sef y ffigur uchaf yn Ne-ddwyrain Cymru.
- Mae canran y dysgwyr o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig Tyddewi yn sylweddol uwch na'r ffigur ar gyfer **AB yng Nghymru, sef 7%.**
- Y boblogaeth Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng **Nghymru yw 6.2%.**
- Mae patrymau cofrestru ar raglenni a chysiau wedi bod yn gyson dros flynyddoedd diweddar. Mae'r nifer uchaf o ddysgwyr o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ym **Meysydd Sector Pwnc y Gwyddorau, Mathemateg a Busnes, Gweinyddu a'r Gyfraith.**
- Mae proffil staffio'r Coleg yn wyn yn bennaf. **Mae 7% o'r staff yn nodi eu bod yn Ddu, Asiaidd neu o Leiafrifoedd Ethnig.**
- Mae'r Coleg yn archwilio ffyrdd o gynyddu nifer y staff o gefndiroedd **Du, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig.**



BETH YDYM NI'N EI WNEUD I FOD YN GOLEG GWRTH-HILIOI?

- Rydym yn edrych ar ein cynlluniau gwaith **cwricwlwm** a gwersi i geisio cynnwys astudiaethau achos a chynnwys cwricwlwm sy'n fwy amrywiol yn ddiwylliannol.
- Mae eich athrawon yn defnyddio **cynnwys gwrth-hiliaeth a ddatblygwyd gan y sector AB**. Gallwch archwilio'r '**Metafyd Gwrth-Hiliaeth**' hwn, sef adnoddau a ariennir gan Lywodraeth Cymru sydd ar gael i bob dysgwr yng Nghymru: <https://www.antiracism.wales/cy/>
- Mae **ein rhaglen Fugeiliol** wedi'i haddasu i adlewyrchu effaith hiliaeth ar gymunedau du a gwyn ac i **hyrwyddo gwerthoedd ac ymddygiad gwrth-hiliol**.
- Rydym ni eisiau i fwy o ddysgwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig wirfoddoli i fod yn **gynrychiolwyr myfyrwyr** fel ein bod yn clywed gan **bob dysgwr, beth bynnag fo'u cefndir ethnig, am eu profiadau yn yr ystafell ddosbarth**.
- Mae gennym **Grwpiau Ymgysylltiad Myfyrwyr** ac **Ymgysylltiad Staff** sy'n cynnwys myfyrwyr a staff â phrofiad byw sy'n trafod materion sy'n ymwneud â'r rhai o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig er mwyn llywio ein cynllunio.





BETH YDYM NI'N EI WNEUD I FOD YN GOLEG GWRTH-HILIO?

-
- Byddwn yn **gofyn i athrawon a staff gwasanaethau proffesiynol eraill** (staff yn y CAD, Gwasanaethau Myfyrwyr, Ffreutur ac ati) i feddwl am ffyrdd y gallant gyfrannu at Goleg Dewi Sant i fod yn goleg gwrth-hiliol yn eu **hadolygiadau blynyddol**.
 - Mae gwrth-hiliaeth yn **eitem sefydlog** ar **agendâu cyfarfodydd uwch arweinwyr** unwaith yr hanner tymor ac ar **agendâu cyfarfodydd llywodraethwyr** unwaith y tymor.
 - Byddwn yn **hyrwyddo arfer gwrth-hiliaeth** ar **wefan ein Coleg**.
 - Byddwn yn darparu **fforwm i rieni/gwarcheidwaid ddarparu adborth** ar arferion gwrth-hiliol o fewn y Coleg.
 - Rydym yn parhau â'r **Diwrnod Diwylliannol blynyddol** i **hyrwyddo a dathlu amrywiaeth ethnig a diwylliannol yn ein coleg**.